OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 53

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016

## RHAN 2

### Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: meini prawf penodedig

**Cyfleusterau storio nwy tanddaearol**

**5.**—(1) Nid yw datblygiad sy'n ymwneud â chyfleusterau storio nwy tanddaearol o fewn rheoliad 3(1)(b) ac eithrio pan fo'r datblygiad o fewn paragraffau (2), (3), (4) neu (6) o'r rheoliad hwn.

(2) Mae datblygiad o fewn y paragraff hwn os y datblygiad yw cyflawni gweithrediadau at y diben o greu cyfleusterau tanddaearol ar gyfer storio nwy mewn ceudodau neu mewn strata mân-dyllog naturiol, ac os bodlonir un o'r amodau ym mharagraff (5).

(3) Mae datblygiad o fewn y paragraff hwn os—

(a) y datblygiad yw dechrau defnyddio cyfleusterau tanddaearol ar gyfer storio nwy ac eithrio mewn strata mân-dyllog naturiol;

(b) trawsgludwr nwy yw'r datblygwr arfaethedig; ac

(c) bodlonir un o'r amodau ym mharagraff (5).

(4) Mae datblygiad o fewn y paragraff hwn os —

(a) y datblygiad yw dechrau defnyddio cyfleusterau tanddaearol ar gyfer storio nwy mewn ceudodau neu mewn strata mân-dyllog naturiol;

(b) nad trawsgludwr nwy yw'r datblygwr arfaethedig; ac

(c) bodlonir un o'r amodau ym mharagraff (5).

(5) Yr amodau yw—

(a) bod cynhwysedd gweithredol disgwyliedig y cyfleusterau yn 43 miliwn metr ciwbig safonol, o leiaf;

(b) bod cyfradd llif uchaf ddisgwyliedig y cyfleusterau yn 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod, o leiaf.

(6) Mae datblygiad o fewn y paragraff hwn os —

(a) y datblygiad yw cyflawni gweithrediadau at y diben o addasu cyfleusterau tanddaearol at y diben o storio nwy mewn ceudodau neu mewn strata mân-dyllog naturiol, a

(b) effaith ddisgwyliedig yr addasu yw—

(i) cynyddu cynhwysedd gweithredol y cyfleusterau o 43 miliwn metr ciwbig safonol, o leiaf, neu

(ii) cynyddu cyfradd llif uchaf y cyfleusterau o 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod, o leiaf.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfradd llif uchaf" ("*maximum flow rate*") yw'r gyfradd uchaf y gall nwy lifo allan o'r cyfleusterau yn unol â hi, gan ragdybio—

(a) bod y cyfleusterau wedi eu llenwi hyd at eu cynhwysedd mwyaf, a

(b) y mesurir y gyfradd ar ôl unrhyw brosesu sy'n ofynnol ar y nwy wrth ei adfer o'r storfa;

ystyr "cynhwysedd gweithredol" ("*working capacity*") yw cynhwysedd y cyfleusterau ar gyfer storio nwy yn danddaearol, gan ddiystyru unrhyw gynhwysedd sydd ar gyfer storio nwy clustogi; ac

ystyr "nwy clustogi" ("*cushion gas*") yw nwy a gedwir mewn cyfleusterau tanddaearol at y diben o alluogi adfer o'r storfa nwy arall a storiwyd ynddi.